Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r Wasg

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Mai 2008

Teitl: Cytundeb ariannu newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru

Bydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru'n derbyn dyraniadau grant o £450 miliwn ym mlwyddyn academaidd 2008/09, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi cyhoeddi.

Bydd y prif ddyraniadau o gyllid craidd ar gyfer addysgu ac ymchwil yn 2008/09 yn fwy na £360 miliwn. Mae £90 miliwn arall ar gael ar gyfer cyllid cyfalaf ac ystod o flaenoriaethau strategol eraill.

Y dyraniadau yw'r cyntaf i'w gwneud yn dilyn canlyniadau Adolygiad Gwario Cynhwysfawr 2007.

Yn y cyfamser, bydd CCAUC yn parhau i hyrwyddo cynnydd tuag at flaenoriaethau *Ymgyrraedd yn Ehangach,* strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002. Bydd CCAUC hefyd yn helpu i sicrhau bod y sector addysg uwch yng Nghymru mewn sefyllfa dda i gyfrannu i gyflawni'r uchelgeisiau i Gymru a amlinellwyd yn *Cymru'n Un.*

Fel sy'n ofynnol gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, mae CCAUC yn parhau i edrych ar ddefnyddiau strategol ychwanegol o'i gyllid ac mae wedi ymrwymo i gynyddu canran ei grant blynyddol sy'n cael ei

neilltuo ar gyfer blaenoriaethau strategol, yn enwedig ymchwil, ehangu mynediad a darpariaeth Gymraeg.

Ynghyd â rhyddhau cyllid i fuddsoddi yn y blaenoriaethau strategol hyn, mae CCAUC wedi cynyddu'r dyraniad i'w Cronfa Datblygu Strategol 25% o £4 miliwn i £5 miliwn.

O ran arian, bydd cynnydd ar gyfartaledd ar grantiau 2007/08 yn 2.5%, a'r cynnydd mwyaf ar gyfer sefydliad AU unigol yw 3.1%.

Dywedodd yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae gan sector addysg uwch Cymru lawer i ymfalchïo ynddo. Mae'n sylfaen ragorol a hanfodol i fusnesau, cymdeithas a diwylliant Cymru ac mae'n chwarae rôl hanfodol wrth ddatblygu Cymru fel economi gwybodaeth. Er i'r Adolygiad Gwario Cynhwysfawr arwain at gytundeb tynn ar gyfer addysg uwch Cymru, byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd y gallwn dargedu cyllid er mwyn cefnogi blaenoriaethau strategol a mwyhau effaith y sector."

Dywedodd Roger Thomas, Cadeirydd newydd ei benodi'r Cyngor: "Wrth i ni barhau i ymdrin â blaenoriaethau *Ymgyrraedd yn Ehangach* a chroesawu'r agenda a osodwyd gan *Cymru'n Un,* mae llawer i'w wneud. Wrth geisio mwyhau'r cyfraniad y gall SAU ei wneud i Gymru, byddwn yn parhau i weithio'n galed gyda nhw a sicrhau eu bod yn gystadleuol ym marchnadoedd y DU ac yn rhyngwladol.

"Mae addysg uwch yn creu incwm, sy'n fuddsoddiad rhagorol o arian cyhoeddus, a bydd CCAUC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael y cyllid a fydd yn caniatáu i addysg uwch wneud cyfraniad llawn i ddatblygiad Cymru yn y dyfodol."

Diwedd

Nodiadau:

1. Cysylltiadau ar gyfer gwybodaeth bellach

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

2. Y cytundeb ariannu

Mae manylion llawn dyraniadau grant rheolaidd CCAUC ar gyfer 2008/09 yn y cylchlythyr W08/15HE, *Grantiau Rheolaidd 2008/09.*

Mae dyraniadau grantiau rheolaidd ar gyfer 2008/09 o'u cymharu â 2007/08 yn **Atodiad A.** Mae **Atodiad B** yn cymharu dosbarthiad cyfanswm grant CCAUC, rheolaidd a chyfalaf, sylfaen ac uwchben sylfaen, ar gyfer blwyddyn academaidd 2008/09 o gymharu â blwyddyn academaidd 2007/08.

3. Cymru'n Un – Agenda flaengar i lywodraeth Cymru

Cymru'n Un yw'r cytundeb rhwng grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad a gellir ei ddarllen ar
http://new.wales.gov.uk/strategy/strategies/onewales/onewalese.pdf?lang=en

3. CCAUC

Corff sy'n cael ei Noddi gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trefnu ei fod ar gael i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a gynhelir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac yn comisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â chyfrifoldebau cyllid, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllid, uchelgeisiau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.